# Y BWRDD GWEITHREDOL

DYDD LLUN, 4YDD IONAWR, 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens a J. Tremlett

**Yn bresennol fel sylwedyddion:**
Y Cynghorwyr D.M. Cundy, T. Devichand a J. Williams.

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr M. James | – | Y Prif Weithredwr |
| Mr C. Moore | – | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mr J. Morgan | – | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol |
| Ms R. Mullen | – | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd |
| Mr R. Sully | – | Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant |
| Mr P. Thomas | – | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Ms W. Walters | – | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Mr J Fearn | – | Pennaeth Eiddo Corfforaethol |
| Ms L. Rees Jones | – | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Mrs S. Watts | – | Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd |
| Ms D. Williams | – | Rheolwr y Wasg |
| Mrs M. Thomas | – | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 11.20 a.m**.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb

Cyfeiriwyd at y tywydd gwael a'r llifogydd a gafwyd mewn mannau ledled y sir, a diolchodd y Bwrdd i'r staff am eu hymdrechion yn sicrhau bod gwasanaethau'n dal i gael eu darparu ac o ran helpu'r cyhoedd mewn amgylchiadau anodd tu hwnt.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Mr Bruce McLernon, Cyn-gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr Awdurdod, ar ennill O.B.E. yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd y Frenhines.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y CYNGHORYDD | RHIF Y COFNOD | Y MATH O FUDDIANT |
|---|---|---|
| E. Dole | 5 - Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Diweddariad | Aelod o Gyngor Cymuned Llannon sy'n ymgymryd â throsglwyddo asedau. |
| D.M. Jenkins | 5 - Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Diweddariad | Aelod o Gyngor Cymuned Glanaman sydd â diddordeb mewn trosglwyddo asedau. |

| | | |
|---|---|---|
| D.M. Jenkins | 13 – Darparu Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y Dyfodol gan yr Adran Addysg a Phlant | O ran Canolfan Addysg Gymunedol Glanaman - aelod o Gyngor Tref Glanaman sydd â diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb dros y cyfleuster. |

Datganiadau gan Swyddogion

Roedd pob swyddog oedd yn bresennol yn y cyfarfod, heblaw am y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, wedi datgan buddiant personol yn eitem rhif 9 – Cynllun Ildio Cyflog (Car).

## 3. CWESTIYNAU GAN AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL - DIWEDDARIAD

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr E. Dole a D.M. Jenkins wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Mewn perthynas â'r penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Rhagfyr, 2014 (gweler cofnod 11) yn ymwneud â throsglwyddo asedau sef parciau, lleoedd chwarae a mannau amwynder, bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a roddai'r diweddaraf ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol gan gynnwys manylion trosglwyddiadau sydd wedi digwydd hyd yma.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r rhan fwyaf o'r Cynghorau Tref a Chymuned a bod nodiadau atgoffa wedi'u hanfon at y 5 cyngor oedd heb ymateb hyd yma, yn ail-gadarnhau'r amserlen sef 1af Ebrill, 2016 ar gyfer cyflwyno mynegiannau o ddiddordeb a 31ain Mawrth, 2018 ar gyfer y trosglwyddo terfynol.

Er y gwnaed cynnydd sylweddol roedd y broses wedi dioddef cam yn ôl yn sgil Cynghorau Tref Llanelli a Llanymddyfri yn cadarnhau na fyddai'r naill na'r llall yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw drosglwyddiadau asedau yn eu hardaloedd nhw, er bod Cyngor Tref Llanelli wedi mynegi diddordeb mewn ariannu rhai elfennau o diroedd a gwaith arall cynnal a chadw cyfleusterau.

Roedd erthyglau yn y wasg yn ddiweddar wedi ailgadarnhau'r amserlen ar gyfer cyflwyno mynegiannau o ddiddordeb a throsglwyddo terfynol, yn dilyn cyhoeddi hysbysiadau statudol yn gofyn am sylwadau gan y cyhoedd ynghylch y bwriad i drosglwyddo'r cyfleusterau hyn, fel oedd yn ofynnol o dan Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Roedd yr erthyglau hyn hefyd yn ailadrodd, lle na ddangoswyd dim diddordeb, y byddai ymgynghori priodol yn cael ei gynnal ynghylch dyfodol yr asedau dan sylw. Yn sgil y broses hon roedd un gwrthwynebiad wedi dod i law sef yn erbyn y bwriad i drosglwyddo Parc Howard.

Roedd manylion y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r holl gynlluniau trosglwyddo asedau arfaethedig, copïau o'r hysbysiadau statudol a chopi o'r gwrthwynebiad wedi'u hatodi i'r adroddiad er gwybodaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd D.M. Cundy, yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1, a oedd hon yn adeg ddelfrydol i adolygu'r polisi gan ei fod ef o'r farn fod yr amgylchiadau wedi newid ers y cyflwynwyd y polisi sef bod y cysylltiad buddiol rhwng iechyd ac ymarfer corff yn cael ei gydnabod nawr i'r graddau bod hamdden a chwaraeon bellach yn rhan o'r portffolio iechyd. Trwy gadw pobl yn fwy heini dros gyfnod hwy bydd hynny'n arwain at lai o gostau o ran mynd i'r ysbyty, gwasanaethau gofal cymdeithasol, therapi galwedigaethol ac ati, a fydd yn llawer iawn mwy nag unrhyw arbedion a wneir drwy leihau cymorth ariannol i'n lleoliadau chwaraeon, y gallai rhai ohonynt fod mewn perygl o gau gan na allant fforddio'r costau cynnal a chadw. Cyfeiriodd at bryderon penodol a fynegwyd gan y cyhoedd ynghylch dyfodol Parc Howard a gofynnodd a fyddai modd ei dynnu oddi ar y rhaglen trosglwyddo asedau a'i gynnwys yn y rhaglen buddsoddi, digideiddio ac adfywio diwylliannol fel yn achos amgueddfeydd eraill a'r gwasanaeth archifau, gan gofio y byddai'n rhaid buddsoddi ym Mharc Howard i sicrhau ei fod mewn cyflwr priodol i'w drosglwyddo.

Yn ateb, eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden fod yr Awdurdod wedi cyflwyno cais llwyddiannus gwerth £5 miliwn i'r Loteri am fuddsoddiad ym Mharc Howard. Yn anffodus, roedd y cais wedi methu oherwydd gwrthwynebiad gan drigolion lleol.

Rhoddwyd gwybod i'r Cynghorydd Cundy, er bod newid wedi bod yn y polisi mewn perthynas â'r cysylltiad rhwng hamdden ac iechyd, roedd yr egwyddor wedi bod yno drwy'r amser. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd y rhaglen trosglwyddo asedau yn ymwneud ag arbedion yn unig, ond hefyd er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws y sir yn y modd y caiff asedau eu cynnal a'u cadw.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd Cyngor Cymuned Llandyfaelog wedi'i gynnwys yn y rhestr a phwysleisiwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnwys.

**PENDERFYNWYD**

**5.1 nodi'r wybodaeth;**

**5.2 nodi'r gwrthwynebiad a ddaeth i law i'r bwriad i drosglwyddo'r ased sef Parc Howard a bod yr Arweinydd yn cwrdd â Chyfeillion Parc Howard i drafod cynigion ar gyfer ei gynnal a'i gadw yn y dyfodol.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad monitro ynghylch y gyllideb refeniw ar gyfer y cyfnod o 1af Ebrill, 2015 hyd at 31ain Hydref, 2015 a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31ain Hydref, 2015 mewn perthynas â 2015/16.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai tanwariant diwedd blwyddyn o £273k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o

£1,876k ar lefel adrannol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 derbyn yr Adroddiad Monitro ynghylch y Gyllideb;**
**6.2 bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu eu sefyllfaoedd cyllidebol yn feirniadol ac yn cymryd camau priodol er mwyn cadw'r gwariant yn unol â'r gyllideb a ddyrannwyd.**

## 7. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2015-16

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ynghylch gwariant y Rhaglen Gyfalaf yn erbyn cyllideb 2015/16, fel yr oedd ar 31ain Hydref, 2015. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am y prif amrywiannau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## 8. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD - 2016/17-2020/21

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn bwrw golwg gychwynnol ar y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd o 2016/17 i 2020/21, a fyddai'n sail i'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb gyda'r aelodau a phartïon perthnasol eraill. Byddai'r adborth o'r broses ymgynghori hon, ynghyd â chanlyniad y setliad terfynol, yn cyfrannu i'r adroddiad terfynol ynghylch y gyllideb a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r aelodau i'w ystyried yn Chwefror, 2016.

Roedd yn braf gan y Bwrdd nodi lefel y buddsoddi oedd yn cael ei gwneud ar draws yr Awdurdod ar adfywio ac isadeiledd. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at bwysigrwydd manteisio ar ffynonellau cyllid grant yn y cyswllt hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo, at ddibenion ymgynghori, y rhaglen gyfalaf arfaethedig.**

## 9. CYNLLUN ILDIO CYFLOG (CAR)

[SYLWER: Roedd pob swyddog oedd yn bresennol yn y cyfarfod, heblaw am y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon ac felly nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod tra cafodd yr eitem ei thrafod a thra penderfynid yn ei chylch.]

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad diweddaru ynghylch gweithredu'r Cynllun Ildio Cyflog (Car) a gymeradwywyd fel rhan o adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol ar 15fed Mehefin, 2015 (gweler cofnod 11). Yn y cyfarfod hwnnw penderfynwyd bod y cynllun Ildio Cyflog (Car) yn cael ei gynnig i ddechrau fel cynllun peilot am flwyddyn i'r un gweithwyr a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer naill ai'r cynllun Cymorth i Brynu Car neu'r cynllun Contract Hurio Car, a bod y cynllun, yn dilyn canlyniadau'r peilot, yn cael ei ailystyried er mwyn asesu a ellir ei ehangu i gynnwys yr holl weithwyr cymwys yn yr Awdurdod.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod yr argymhelliad uchod, yn dilyn ymchwiliad a thrafodaeth bellach ag ymgynghorydd allanol ynghylch y cynllun, wedi cael ei newid a bellach y cynnig oedd bod y cynllun yn mynd yn agored i'r holl weithwyr cymwys yn yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 bod y Cynllun Ildio Cyflog (Car) yn cael ei gynnig i'r holl weithwyr cymwys yn yr Awdurdod;**

**9.2 bod y broses gaffael yn parhau ynghylch gweithredu'r Cynllun Ildio Cyflog (Car), gyda golwg ar ddechrau'r cynllun yn 2016.**

## 10. ADOLYGIAD O DDATGANIAD Y POLISI TRWYDDEDU (DEDDF TRWYDDEDU 2013)

Atgoffwyd y Bwrdd fod y Polisi Trwyddedu presennol wedi cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod yn Ionawr 2011 a'r Polisi Effaith Gronnol mewn perthynas â Heol yr Orsaf, Llanelli yn 2012. Roedd yn ofynnol, yn ôl deddfwriaeth, i'r Polisi Trwyddedu gael ei adolygu o leiaf bob pum blynedd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu adborth gan y gymuned leol fod yr amcanion statudol yn cael eu cyflawni.

Ers i'r Polisi Trwyddedu presennol gael ei adolygu roedd llawer o newidiadau wedi cael eu gwneud i Ddeddf Trwyddedu 2003. Roedd Adain Drwyddedu yr Awdurdod, ar y cyd ag Adain y Gyfraith, wedi adolygu'r ddogfen bolisi yng ngoleuni'r newidiadau hyn, canllawiau diwygiedig y llywodraeth a chyfraith achos ddiweddar. Roedd y newidiadau statudol hyn wedi eu cynnwys yn y ddogfen bolisi.

Fel rhan o'r adolygiad roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfrifol, preswylwyr a busnesau lleol, deiliaid trwydded presennol a'u cynrychiolwyr, er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod roi ystyriaeth ffurfiol i'w sylwadau. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 7fed Gorffennaf a daeth i ben ar 13eg Medi, 2015.

Nodwyd y byddai'r polisi, os byddai'n cael ei gymeradwyo, yn dod i rym o 10fed Chwefror 2016 ymlaen.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR**

**10.1 bod Datganiad diwygiedig y Polisi Trwyddedu yn cael ei gymeradwyo;**
**10.2 bod y Polisi Effaith Gronnol presennol yn cael ei gadw ar gyfer Heol yr Orsaf, Llanelli, fel y manylir yn Adran 10 o'r polisi;**
**10.3 bod rhagor o dystiolaeth yn cael ei chasglu mewn perthynas â'r posibilrwydd o fabwysiadu Polisi Effaith Gronnol ar gyfer Heol Awst, Caerfyrddin, yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad.**

## 11. ADOLYGIAD O'R POLISI HAPCHWARAE

Atgoffwyd y Bwrdd fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu'r Polisi Hapchwarae presennol ym mis Rhagfyr 2012 a'i fod wedi dod i rym ar 31ain Ionawr, 2013. Roedd yn ofynnol, yn ôl deddfwriaeth, i'r Polisi Hapchwarae gael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu adborth gan y gymuned leol fod yr amcanion statudol yn cael eu cyflawni.

Roedd Adain Drwyddedu yr Awdurdod, ar y cyd ag Adain y Gyfraith, wedi adolygu'r ddogfen bolisi yng ngoleuni'r diwygiadau i ganllawiau'r Comisiwn

Hapchwarae. Roedd y swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Comisiwn Hapchwarae er mwyn sicrhau bod y ddogfen ddiwygiedig yn cwmpasu'r newidiadau oedd yn cael eu cyflwyno gan y Comisiwn, a oedd yn cynnwys cynnal cyfarfod ar y cyd â chynrychiolwyr y Comisiwn Hapchwarae ac Awdurdodau Trwyddedu Sir Benfro a Cheredigion.

Fel rhan o'r adolygiad roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal ymgynghoriad â Phrif Swyddog yr Heddlu, cynrychiolwyr busnesau hapchwarae a phobl oedd yn cynrychioli buddiannau preswylwyr a busnesau yn yr ardal, er mwyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth ffurfiol i'w sylwadau. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 7fed Gorffennaf a daeth i ben ar 13eg Medi, 2015.

Ers i'r adroddiad gael ei lunio, roedd y Comisiwn Hapchwarae wedi cyhoeddi fersiwn fwy diweddar o'u canllawiau a gofynnwyd a fyddai modd cymeradwyo bod canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae wedi'u diweddaru yn cael eu cynnwys a'u croesgyfeirio yn y Polisi Hapchwarae.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR fod y Polisi Hapchwarae diwygiedig, gan gymryd i ystyriaeth ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae wedi'u diweddaru, yn cael ei gymeradwyo.**

## 12. ADOLYGU FFIOEDD A BENNIR YN LLEOL YN ADAIN IECHYD YR AMGYLCHEDD A THRWYDDEDU

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr egwyddor o bennu ffioedd yn lleol wedi bod dan sylw'n ddiweddar mewn achos yn yr Uchel Lys, a bod canlyniad yr achos hwnnw wedi cadarnhau'r mathau o gostau y gall Cyngor eu hadennill drwy bennu ffioedd yn lleol. Roedd hyn yn cynnwys gweinyddu, cyflwyno a, lle bo'n berthnasol, gorfodi trwyddedau. Rhaid pennu ffioedd mewn modd tryloyw, ni allant fod yn fwy costus na chost y weithdrefn a rhaid iddynt fod yn agored i broses graffu.

O ganlyniad i'r eglurhad hwn ynghylch y costau y gellid eu cynnwys wrth bennu ffioedd, roedd Panel Arbenigwyr Trwyddedu Cymru wedi llunio "pecynnau gwaith" gyda golwg ar sicrhau bod cysondeb o ran ymagwedd yr Awdurdodau Lleol wrth bennu eu ffioedd. Hefyd roedd hyn yn galluogi Awdurdodau Lleol i sicrhau bod yr holl gostau perthnasol yn cael sylw wrth gyfrif y swm.

Bu'r Bwrdd yn ystyried strwythur ffioedd arfaethedig ar gyfer Adain Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu, ac roedd manylion y rhain wedi'u hatodi i'r adroddiad yn Atodiad 1. Nodwyd y byddai'r ffioedd, os byddent yn cael eu cymeradwyo, yn weithredol o 1af Ebrill, 2016 ymlaen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 hysbysebu'r ffioedd mewn perthynas â Masnachu ar y Stryd, Cyflenwadau Dŵr Preifat, Cŵn Strae, Delwyr Metel Sgrap, Ffioedd Hysbysiadau Deddf Tai 2004, Trwyddedau Safleoedd Cartrefi Symudol, Ffioedd Cynllun Trwyddedu Dethol Tai Amlfeddiannaeth, Ffioedd Asiantaeth Grant a Thai Gwag/Troi Tai'n Gartrefi, fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, am gyfnod o 28 diwrnod a bod y ffioedd diwygiedig yn cael eu gweithredu o 1af Ebrill, 2016;**

**12.2 ARGYMELL I'R CYNGOR**

**12.2.1 hysbysebu'r ffioedd arfaethedig ar gyfer cerbydau hacnai/hurio preifat, fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, am gyfnod o 28 diwrnod fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 er mwyn i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau ac os nad oes gwrthwynebiadau bydd y ffioedd yn cael eu gweithredu o 1af Ebrill, 2016;**

**12.2.2 hysbysebu'r ffioedd mewn perthynas â Sefydliadau Rhyw, Tatŵio a Thyllu'r Croen, Diogelwch mewn Meysydd Chwarae, Ailsgorio Hylendid Bwyd a Thrwyddedau Cychwyr a Chychod Pleser, fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, am gyfnod o 28 diwrnod a bod y ffioedd diwygiedig yn cael eu gweithredu o 1af Ebrill, 2016.**

## 13. DARPARIAETH DYSGU I OEDOLION YN Y GYMUNED YN Y DYFODOL GAN YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd D.M. Jenkins wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a roddai fanylion am y sefyllfa ariannol gyfredol oedd yn wynebu Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yr Adran Addysg a Phlant. Nid oedd y gwasanaeth yn derbyn cyllid craidd gan y Cyngor ac roedd yn ddibynnol ar grantiau Llywodraeth Cymru i weithredu. Dros y flwyddyn diwethaf roedd y gwasanaeth wedi cael gostyngiad o £289k mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru oedd yn cyllido darpariaeth cyrsiau, staff ac adeiladau cysylltiedig.

Yn ogystal â'r gostyngiad yn y cyllid grant, ym Medi 2015 penderfynodd rheolwyr Coleg Sir Gâr na fyddai'n bosibl trosglwyddo staff y gwasanaeth a'r ddarpariaeth cyrsiau o'r Cyngor Sir i strwythur y Coleg. Roedd ymarfer monitro manwl ynghylch y gyllideb wedi tynnu sylw at y ffaith fod y gwasanaeth oddeutu £147k dros y gyllideb a ddyrannwyd am ddysgu cymunedol yn y flwyddyn 2015/16. Roedd y ffactorau hyn yn golygu, oni bai bod cyllid arall o gyllidebau'r Cyngor i gynnal dysgu cymunedol yn cael ei glustnodi, na fyddai'r gwasanaeth yn gallu parhau i ddarparu'r ystod gyfredol o gyrsiau, rheoli'r ystod o adeiladau'r gwasanaeth a chyflogi'r staff cysylltiedig.

Yn absenoldeb unrhyw gyllid ychwanegol a glustnodwyd i gefnogi'r gwasanaeth, roedd y swyddogion wedi cynllunio sut y gallai'r Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned weithredu gan ddefnyddio'r gyllideb fyddai ar gael yn y flwyddyn ariannol 2016/17 ac argymhellwyd gweithredu'r camau canlynol:-

1. Blaenoriaethu cyllideb y gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer darparu addysg sylfaenol i oedolion, sef cyrsiau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (gan gynnwys darpariaeth iaith i ffoaduriaid) a gweithgareddau a fyddai'n targedu'r dysgwyr anoddaf i'w cyrraedd a phobl y mae tlodi'n effeithio arnynt;

2. Ailstrwythuro adain Addysg Sylfaenol i Oedolion y gwasanaeth yn 2016 er

mwyn gallu cyflwyno'r ddarpariaeth hon yn y modd mwyaf cost effeithiol sy'n bosibl;

3. Cynnal adolygiad o bolisi ffioedd y cyrsiau, gan godi ffioedd am gyrsiau SSIE, er bod cyrsiau Sgiliau Sylfaenol (llythrennedd a rhifedd) yn aros yn ddi-dâl;

4. Y gwasanaeth yn peidio â darparu dosbarthiadau eraill dysgu oedolion yn y gymuned (e.e. pynciau megis celf, crefftau, ieithoedd, cyfrifiadura a'r dyniaethau) ar ôl 31ain Mawrth, 2016 gan arwain at leihad yn nifer y staff cysylltiedig a gyflogir;

5. Y gwasanaeth yn rhoi'r gorau'n ffurfiol i'r rheolaeth a'r holl gostau cysylltiedig yn ymwneud â Chanolfan Cennen yn Rhydaman, Canolfan Addysg Gymunedol Glanaman a Chanolfan Addysg Gymunedol Felin-foel o 31ain Mawrth, 2016;

6. Y gwasanaeth yn cadw presenoldeb yn nhref Caerfyrddin, gan archwilio opsiynau ar gyfer lleoli'r ddarpariaeth drwy asesu dichonoldeb defnyddio lle yn llyfrgell Caerfyrddin, neu barhau i ddefnyddio Canolfan Addysg Caerfyrddin neu safle arall, a pharhau i ddefnyddio ystafelloedd yn llyfrgell Llanelli;

7. Y gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cadw rôl o ran coladu gwybodaeth am gyrsiau sy'n cael eu cynnig gan sefydliadau ac unigolion eraill yn Sir Gaerfyrddin ac yn hyrwyddo'r wybodaeth hon drwy eu rhestru ar y wefan a chael swyddog cyswllt a enwir.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod hyn yn gyfle i annog y trydydd sector i ymgymryd â rôl darparu cyrsiau anachrededig megis crefftau fel gwaith crosio a chroesbwytho yn ogystal â rhaglenni ymarfer corff.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 derbyn yr adroddiad sy'n manylu ar yr angen i ailstrwythuro a newid pwyslais gwaith Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yr Adran Addysg a Phlant yn dilyn gostyngiad sylweddol yn y cyllid a geir gan Lywodraeth Cymru;**

**13.2 cymeradwyo darpariaeth y Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y dyfodol yn unol â'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer y flwyddyn 2016/17, fel y manylir uchod.**

**13.3 rhestru gwybodaeth ar Lleol-i am y cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan sefydliadau ac unigolion yn Sir Gaerfyrddin.**

## 14. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a roddai ddiweddariad ynghylch y datblygiadau sy'n ymwneud â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data perfformiad mewn perthynas â'r iaith Gymraeg mewn ysgolion, yn rhoi manylion am y cynnydd o ran "Codi Caerau Sir Gâr" a deunyddiau marchnata ac yn rhoi diweddariad ynghylch datblygiadau eraill yn ymwneud â'r

Gymraeg mewn Addysg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**15. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I GAU YSGOL BABANOD LLANGENNECH AC YSGOL IAU LLANGENNECH A SEFYDLU YSGOL GYMUNEDOL GYNRADD LLANGENNECH**

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a roddai fanylion y cynnig i gau Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Gynradd Llangennech a sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol Llangennech. Cynigiwyd y byddai'r ysgol newydd yn ysgol categori iaith cyfrwng Cymraeg 3-11 oed ynghyd â darpariaeth feithrin.

Yn dilyn ymddeoliad pennaeth Ysgol Babanod Llangennech ar ddiwedd tymor yr haf 2013 sefydlwyd ffederasiwn llac gyda phennaeth Ysgol Iau Llangennech. Ym Medi 2014 penderfynodd Cyrff Llywodraethu y ddwy ysgol i fwrw ymlaen â llunio ffederasiwn ffurfiol o Ebrill, 2015. Roedd yr Awdurdod bellach yn dymuno bwrw ymlaen â chynnig i greu Ysgol Gynradd Gymunedol a fyddai'n cymryd lle Ysgolion Babanod ac Iau Llangennech.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Gynradd Llangennech a sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol Llangennech.**

**16. BWRIAD I WAREDU TIR AC ADEILADU A DDELIR DAN YMDDIRIED SEF CANOLFAN ADDYSG CYMUNEDOL PEN-BRE (NEUADD GOFFA PEN-BRE YN FLAENORAL) HEOL Y MYNYDD, PEN-BRE, PORTH TYWYN, SIR GAERFYRDDIN**

Hysbyswyd y Bwrdd fod Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned y Cyngor wedi rheoli Canolfan Addysg Gymunedol Pen-bre ers y crëwyd yr Awdurdod Unedol yn 1996.

Mae'r Gwasanaeth DOG wedi bod yn destun toriadau parhaus i gyllidebau craidd a chyllidebau grant ers 2008 ac roedd adolygiad o'r modd y defnyddir adeiladau a gynhaliwyd yn 2011/12 wedi amlygu bod cyrsiau'r gwasanaeth DOG yn defnyddio'r adeilad yn anfynych iawn, ond bod amrywiaeth o gyrff lleol gan gynnwys Grŵp Ysgol Feithrin Pen-bre yn defnyddio'r ganolfan.

Gan fod costau rhedeg a chynnal a chadw'r adeilad yn uchel ac yn cynnwys gofalwr llawn-amser bernid mai doeth fyddai archwilio dulliau eraill o reoli'r cyfleuster hwn mewn partneriaeth â'r gymuned leol ac yn dilyn proses ymgynghori cadarnhaodd Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn eu bod nhw'n barod i gymryd rheolaeth dros yr adeilad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i drosglwyddo'r adeilad i Gyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn yn unol â'r telerau a nodwyd yn yr adroddiad.**

**17. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN (DRAFFT) 2016-2020**

Dywedwyd wrth y Bwrdd fod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd yn y sector cyhoeddus, a oedd yn cymryd lle'r dyletswyddau

ar wahân o ran cydraddoldeb hil, cydraddoldeb anabledd a chydraddoldeb rhyw.

Nod y ddyletswydd gyffredinol oedd sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai oedd yn cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallent gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau pob dydd.

Roedd y fersiwn drafft o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i lunio er mwyn amlinellu sut roedd y Cyngor yn mynd i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Penodol i Gymru. Roedd y strategaeth ddrafft yn cynnwys chwech o amcanion allweddol y bydd y Cyngor yn gweithio tuag at eu cyflawni, yn seiliedig ar ei rôl fel cyflogwr, darparwr gwasanaethau ac arweinydd cymunedol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR gymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin 2016-2020 ar gyfer ei weithredu o Ebrill 2016.**

## 18. DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) - GOFYNION OR AWDURDODAU LLEOL

Dywedwyd wrth y Bwrdd fod Deddf Teithio Llesol (Cymru) wedi dod yn ddyletswydd ym Medi 2014 a'i bod yn rhoi gofyniad statudol ar Awdurdodau Lleol i wella llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn barhaus ac i baratoi mapiau sy'n clustnodi llwybrau cyfredol a llwybrau posibl yn y dyfodol.

Trwy gysylltu safleoedd allweddol fel mannau gweithio, ysbytai, ysgolion a mannau siopa â llwybrau di-draffig a lonydd beicio, nod y Ddeddf oedd annog pobl i ddibynnu llai ar eu ceir wrth wneud teithiau byr. Nod y Ddeddf oedd gwneud teithio llesol yr opsiwn mwyaf atyniadol ar gyfer teithiau byr, ar y sail y byddai galluogi mwy o bobl i deithio'n llesol yn golygu y gallai mwy o bobl fwynhau'r manteision i iechyd, helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, trechu tlodi ac anfantais a helpu i'r economi dyfu.

Ar hyn o bryd, roedd y Ddeddf yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhwymedigaeth statudol i greu ac i gyhoeddi Mapiau o'r Llwybrau Presennol y mae'n rhaid eu cwblhau a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 22ain Ionawr, 2016.

Nodwyd bod Trimsaran wedi cael ei adael allan o'r map a byddai'n cael ei gynnwys cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**18.1 nodi gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;**

**18.2 cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan y Cyngor hyd yma ynghylch datblygu Map o'r Llwybrau Presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.**

## 19. COFNODION

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 30ain Tachwedd, 2015 yn gofnod cywir.**

CADEIRYDD

DYDDIAD